



Y Gymraeg yn y Gweithle

Adran Cydraddoldeb
Cyfarwyddiaeth Adnoddau
Dyddiad Gweithredu 1/4/2016



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn print bras ac mewn fformatau eraill ar gais.

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle

1. Diben

Nodi gofynion Safonau'r Gymraeg, fel y'i nodwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a threfniadau mewnol y Cyngor i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

2. Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob un o gyflogeion y Cyngor heblaw am:

- Staff addysgu a staff ategol mewn ysgol a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol

3. Cyflwyniad

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae gofyn i'r Cyngor gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg drwy gydol y Cyngor.

Mae hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth yn y Cyngor, oni bai am ysgolion. Mae'r safonau'n benodol berthnasol i:-

1. Cyflenwi gwasanaethau - safonau 1-87 a 155-160
2. Creu Polisiâu - safonau 88 - 97 a 161-166
3. Gweithredol - safonau 104 -144 a 167- 172
4. Hyrwyddo - safonau 145 –146 a 173-174
5. Cadw Cofnodion - safonau 147-154 a 175-176

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg lle bynnag y bo'n bosibl.

4. Egwyddorion

Dylid nodi'r egwyddorion canlynol:-

- Mae gan gwsmeriaid hawl i gael gohebiaeth yn y Gymraeg, ac mae'n rhaid i'r Cyngor ofyn ai hon yw eu dewis iaith o ran gohebiaeth/deialog, a chofnodi hyn lle bo'n bosibl, i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth i'r dyfodol yn Gymraeg
- Dylid darparu gohebiaeth ddwyieithog os nad yw'r dewis iaith yn hysbys
- Dylid sicrhau bod cyfarchiadau i alwadau ffôn allanol yn ddwyieithog ac mae'n rhaid i chi roi gwybod bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg os yw'r cwsmer yn dymuno
- Dylid cynnal rhai cyfarfodydd penodol yn y Gymraeg
- Dylai deunyddiau mewn ardaloedd cyhoeddus neu ddogfennau at ddibenion cyhoeddus fod yn ddwyieithog, gan gynnwys gwefannau, arwyddion, dogfennau tendr a chyrsgiau, a dylai unrhyw bolisïau sy'n cael eu creu ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg
- Dylid cynnal prosesau recriwtio yn y Gymraeg yn ôl y gofyn, ynghyd â rhai Prosesau AD a chyrsgiau hyfforddiant i aelodau staff.
- Dylid cadw cofnodion am unrhyw gwynion ynghylch y Gymraeg, a'u hanfon ymlaen at yr adran Cydraddoldeb
- Cyrsgiau a gynigir a nifer y mynychwyr, a gweithgarwch recriwtio.

Mae'r rhestr hon yn ganllaw, a dylid darllen y safonau yn eu cyfanrwydd.

Strategaeth 5 Mlynedd

Yn unol â'r Safonau mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth 5 mlynedd i nodi sut fydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso ledled gwasanaethau'r Cyngor.

Bydd y cynllun yn cynnwys manylion ar gynnal neu gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd, ynghyd â chynlluniau ar sut i gyflawni hyn. Yn ôl cyfrifiad 2011, 10.8% yw canran y siaradwyr Cymraeg.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu a'i diweddarau ymhen 5 mlynedd, gan asesu i ba raddau y mae'r strategaeth wedi'i dilyn ac os yw'r ganran darged wedi'i chyrraedd.

Bydd gwefan y Cyngor yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ac yn rhoi manylion am nifer ac oedran y siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg, ac hefyd yn cynnwys rhestr o unrhyw weithgareddau sydd wedi'u trefnu neu eu hariannu i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei greu i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y safonau, yn seiliedig ar gasglu data rheolaidd.

Beth all y cwsmer ei ddisgwyl

- I. Bydd pob cyhoeddiad, ffurflen ac arwydd yn cael ei greu'n ddwyieithog. Bydd gohebiaeth a anfonir at fwy nag un person yn ddwyieithog.
- II. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod ein bod ni'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, a bydd y gohebiaeth honno'n derbyn ymateb yn Gymraeg oni bai y nodir nad oes angen hyn.
- III. Bydd galwadau ffôn yn cael eu hateb gan gyfarchiad dwyieithog, ac os yw'n well gan y galwr barhau â'r sgwrs yn Gymraeg, dylid dod o hyd i siaradwr Cymraeg i ymateb i'r alwad.
- IV. Bydd unrhyw fanylion cyswllt ar bosteri'n rhannu rhif ffôn y Cyngor yn ddwyieithog, ac yn nodi bod croeso i alwadau Cymraeg.
- V. Bydd unrhyw arwyddion gwybodaeth cyhoeddus newydd yn rhoi'r Gymraeg yn gyntaf.
- VI. Bydd gan y prif ardaloedd derbynfa siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau, os nad ydynt yn gallu ymdrin ag ymholiad gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i siaradwr Cymraeg a fydd yn gallu ymdrin â'r mater, os nad oes unrhyw un, darperir cyfieithiad neu bydd modd gadael neges.
- VII. Bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir gan y Cyngor dros e-bost yn cynnwys teitl swydd a gweithle'r cyflogai yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal ag unrhyw negeseuon allan o'r swyddfa.
- VIII. Bydd troedyn yr e-bost hefyd yn nodi os yw'r awdur yn gallu siarad Cymraeg. Bydd pob troedyn yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg.
- IX. Bydd gwefan y Cyngor ac unrhyw gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan y Cyngor yn ddwyieithog.
- X. Os ydych yn gwahodd cwsmer i gyfarfod, bydd rhywun yn gofyn i'r unigolyn os hoffai gynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac os felly, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Os oes mwy nag un person wedi'i wahodd, yn dibynnu ar gynnwys y cyfarfod a'r niferoedd sy'n gofyn am y Gymraeg, mae'n bosibl y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- XI. Bydd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a gwahoddiadau'n croesawu unrhyw un sydd am siarad Cymraeg (gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan, neu a ariennir yn rhannol gan, y Cyngor) yn unol â'r Safonau.

Beth gall Staff a chyflogeion y dyfodol ei ddisgwyl

Yr uchod i gyd os bydd yn gwsmer i'r Cyngor.

Recriwtio

Fel cyflogai neu aelod o'r cyhoedd sy'n ymgeisio am swydd yn y Cyngor, gallwch lenwi ffurflen gais yn Gymraeg a gofyn i'r broses rhestr fer a chyfweld gael ei chynnal yn Gymraeg.

Bydd pob swydd a hysbysebwr yn swydd Cymraeg yn ddymunol yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, a bydd copïau o'r DS a'r MP yn cael eu cyfieithu. Bydd pob swydd a hysbysebwr yn allanol yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog yn awtomataidd, ynghyd â'r holl fanylion sy'n ymwneud â'r swydd.

Mae'n bosibl y bydd cais am dermau ac amodau cyflogaeth yn Gymraeg, a bydd y rhain yn cael eu darparu'n Gymraeg.

Cadw Cofnodion/Data

Cynhelir cronfa ddata o allu yn y Gymraeg ar gyfer pob aelod staff, bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i fesur perfformiad yn erbyn y cynllun 5 mlynedd a'r gofynion hyfforddi targed. Bydd Oracle yn cofnodi'r wybodaeth hon.

Hyfforddiant

Mae'n bosibl cynnal rhai cyrsiau hyfforddi drwy'r Gymraeg gan gynnwys Ymsefydlu, recriwtio a dethol, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, rheoli perfformiad, gofal cwsmer/deliog â'r cyhoedd a chysiau iechyd a diogelwch. Yn ogystal, bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

Bydd staff yn cael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu gwersi Cymraeg sylfaenol, defnyddio'r Gymraeg fel rheolwr ac i fwrw ymlaen i hyfforddiant uwch i ddatblygu sgiliau iaith yn ôl y gofyn.

Mae gan staff hawl i gwyno yn y Gymraeg, i dderbyn ac i ymateb i ohebiaeth berthnasol yn y Gymraeg ac i gael cyfieithu ar y pryd mewn rhai cyfarfodydd.

Monitro ac Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu yn ystod cyfnod y strategaeth 5 mlynedd.

Swyddogion Cyswllt:

Ymholiadau Cyffredinol - Adrian Unsworth, Linda Brown, Huw Isaac a Hannah Davies

Adnoddau - Nigel Smith, Jeff Wyatt, Fiona Lambert, Adrian Unsworth, Tony
Curlis a Dave Vinning
Addysg – Trevor Baker
Gwasanaethau Tai a'r Amgylchedd – Jo Lewis
Gwasanaethau Cymdeithasol – Suzanne Clifton